**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

11 Rhagfyr 2024

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol), Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r GIG), Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017 (Rheoliadau AaGIC) i gyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth cyrff y GIG, gan gynnwys eu gweithdrefnau a'u trefniadau gweinyddol.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag aelodaeth a gweithdrefnau Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru.

3.2 Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779 (Cy. 67)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae rheoliad 3(a) ac (c) yn diwygio'r darpariaethau ynghylch penodi swyddog-aelodau i'r bwrdd ac mae rheoliad 3(b) yn mewnosod darpariaeth i ganiatáu i undebau llafur, a gydnabyddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â materion cyflogaeth, wneud enwebiadau ar gyfer swydd aelod undeb llafur. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau a gyflogir, neu sydd wedi eu cyflogi'n ddiweddar, gan gyrff y GIG yng Nghymru gyda diffiniadau diwygiedig o Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hefyd yn mewnosod darpariaeth ar gyfer y rhai a gyflogir gan Awdurdodau Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 5 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

3.3 Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (O.S. 1990/2024), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae rheoliad 7 yn mewnosod diffiniad ar gyfer Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac yn diwygio'r diffiniad o gorff gwasanaeth iechyd i gynnwys Byrddau Iechyd Lleol. Mae rheoliad 8(a) i (c) yn diwygio'r gofynion cymhwystra presennol fel na fyddant ond yn gymwys i Loegr ac mae (d) i (f) yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer

ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i anghymhwyso'r rhai sydd wedi eu cyflogi gan gyrff y GIG yng Nghymru o fewn y 12 mis diwethaf rhag dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol.

3.4 Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (O.S. 2009/1385 (Cy. 141)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru fel un o ymddiriedolaethau'r GIG. Mae rheoliad 10 yn diwygio'r gofynion cymhwystra i anghymhwyso'r rhai sydd wedi eu cyflogi gan gyrff y GIG yng Nghymru o fewn y 12 mis diwethaf rhag dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol. Mae rheoliad 11 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

3.5 Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017 (O.S. 2017/909 (Cy. 221)), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 13 yn diwygio'r diffiniad o gorff gwasanaeth iechyd i gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 14 yn diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau nad ydynt yn swyddogion i anghymhwyso'r rhai a gyflogir, neu sydd wedi eu cyflogi o fewn y 12 mis blaenorol, gan Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae rheoliad 15 yn diwygio nifer y diwrnodau sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau o gyfarfodydd bwrdd.

3.6 Caiff y rheoliadau eu gwneud yn unol ag adran 203(9)(a) a (b) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (f) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (e) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) ac (f) o Atodlen 5 iddi.

3.7 Caiff y Rheoliadau eu gwneud yn unol â'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod byrddau holl gyrff y GIG yn ddarostyngedig i'r un meini prawf cymhwystra a phrosesau penodi. Heb y Rheoliadau hyn, nid yw'r ddeddfwriaeth yn gyson â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (2018) a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac er bod y safbwynt polisi ynghylch y materion hyn yn hirsefydlog, mae perygl i Lywodraeth Cymru gael ei beirniadu am orfodi meini prawf sy'n anghyson â'r ddeddfwriaeth. Ni fydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith niweidiol ar unrhyw gorff y GIG neu randdeiliaid perthnasol eraill gan eu bod yn gyson â safbwynt polisi hirsefydlog a ddilynir.

4.2 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys newidiadau i'r amserlen gyhoeddi sy'n bodoli eisoes ar gyfer papurau Byrddau. Mae hyn er mwyn adlewyrchu trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth drwy ddulliau electronig a sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf cywir a chyfredol ar gael i Fyrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid. Bydd y diwygiad hwn o fudd i Fyrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid gan y bydd yn sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf cywir a chyfredol ar gael.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar reoliadau a wneir yn unol ag adran 203(9)(a) a (b) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (f) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (e) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) ac (f) o Atodlen 5 iddi. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gyfyngedig, yn effeithio ar ddim ond nifer bach o unigolion ac nid ydynt yn newid polisi Llywodraeth Cymru felly ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Fodd bynnag, mae swyddogion wedi ymgynghori â Chadeiryddion, Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Llywodraethu ac Ysgrifenyddion Bwrdd holl Gyrff y GIG yn ogystal â'r Undebau Llafur a gydnabyddir gan gyrff y GIG hynny ynghylch y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau. Mae'r diwygiadau wedi'u nodi gan y rhanddeiliaid hyn a chânt eu cefnogi yn eang.

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 1. Yr opsiynau

<u>Opsiwn 1</u>

6.1 Busnes fel arfer. Ni fydd y Rheoliadau yn adlewyrchu arferion gorau a llywodraethiant da, ac ni fyddant ychwaith yn ategu'r safbwynt polisi hirsefydlog. Gallai hyn, o bosibl, roi Llywodraeth Cymru mewn perygl o gael ei herio neu ei beirniadu.

<u>Opsiwn 2</u>

6.2 Diwygio Rheoliadau presennol er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod byrddau cyrff y GIG yn ddarostyngedig i'r un meini prawf cymhwystra a phrosesau penodi er mwyn adlewyrchu darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (2018) a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol a'r safbwynt polisi hirsefydlog;

- cwtogi'r amserlen gyhoeddi ar gyfer papurau Byrddau o ddeg diwrnod clir i 5 diwrnod clir er mwyn adlewyrchu dulliau gweithio yn electronig a sicrhau bod Byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir a chyfredol.

### 7. Costau a manteision

Opsiwn 1

7.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2

<u>Diwygio'r gofynion cymhwystra ar gyfer Byrddau'r GIG</u>

7.2 Ar hyn o bryd, ceir anghysondebau mewn perthynas â'r gofynion cymhwystra a amlinellir yn y Rheoliadau ar gyfer Byrddau'r GIG. Mae'r safbwynt polisi ar hyn yn hirsefydlog ac felly ni fydd unrhyw effaith na goblygiadau o ran costau yn sgil gwneud y rheoliadau hyn.

7.3 Y fantais yw y bydd y diwygiadau yn adlewyrchu llywodraethiant da ac yn cael gwared â'r risg o Lywodraeth Cymru yn cael ei herio ynghylch ei safbwynt

polisi. Bydd hyn hefyd yn lleihau nifer y ceisiadau ad hoc am gyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru.

Diwygio'r trefniadau ar gyfer penodi Aelod Undeb Llafur y byrddau

7.4 Nid yw Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer penodi'r aelod undeb llafur yn unol â rheoliad 3(4)(c). Gallai hyn achosi oedi diangen yn y broses recriwtio ar gyfer y swyddi hyn a gallai olygu bod unigolion yn gwneud cais heb gefnogaeth eu hundeb llafur a'i aelodau. Mae'r dull hwn hefyd yn anghyson â'r trefniadau ar gyfer aelodau o Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion sy'n gwneud y ddarpariaeth i'r broses recriwtio fod drwy enwebiad.

7.5 Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn pennu y bydd undebau llafur a gydnabyddir gan y Bwrdd yn cael eu gwahodd i enwebu hyd at ddau ymgeisydd cymwys ac y caiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddewis y person a enwebir i fod yr aelod undeb llafur yn unol â rheoliad 3(4)(c). Bydd hyn yn sicrhau bod gan ymgeiswyr gefnogaeth eu Hundebau Llafur.

7.6 Er nad oes goblygiadau o ran costau, bydd Undebau Llafur a gydnabyddir yn cael eu gwahodd i enwebu unigolion, ond ni ddylai hyn fod yn broses drafferthus na llafurus.

Diwygio'r trefniadau ar gyfer penodi Swyddog-aelodau

7.7 Mae rheoliad 4(2) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol yn datgan bod swyddog-aelodau yn cael eu penodi gan y Bwrdd. O ganlyniad, mae swyddog-aelodau o'r bwrdd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch penodi eu cyd swyddog-aelodau.

7.8 Bydd diwygio'r Rheoliadau yn sicrhau cysondeb â'r darpariaethau yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth y GIG, Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig. Bydd hefyd yn adlewyrchu darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y Cyngor Adrodd Ariannol sy'n nodi y dylai Bwrdd sefydlu pwyllgor enwebu er mwyn arwain y broses benodi ar gyfer penodiadau. Mae hefyd yn nodi y dylai'r mwyafrif o aelodau'r pwyllgor fod yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

7.9 Mae cyrff y GIG wedi glynu wrth yr egwyddor hon ac felly bydd y diwygiad hwn yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol sydd ar waith. Nid oes costau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Diwygio'r amserlen ar gyfer cyhoeddi papurau Byrddau

7.10 Ni fydd goblygiadau o ran costau yn gysylltiedig â chwtogi'r amserlen gyhoeddi i 5 diwrnod.

7.11 Y fantais yw y bydd yn sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf cywir a chyfredol ar gael i Fyrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

8.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar allu busnesau yng Nghymru i gystadlu.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Amherthnasol.